DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, 9fed o Ionawr 2020 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0101/20 - Presennol.

Cynghorwyr , Eric W. Roberts, Dr Iwan Edgar, A Williams, Mike Parry, Ffiona Adams, Dylan Bullard, D. O. Jones, Mici Plwm, Elin Hywel, Hefin Underwood.

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0201/20 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; E. J. Hughes, Parc Ioan Gruffydd, Michael Sol Owen, Elfed Gruffydd, Henry Rees Williams.
……

Cof; - 0301/20 - Datgan Diddordeb.

Dim diddordeb yn cael ei ddatgan.
……

Cof; - 0401/20 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof; - 0501/20 - Gair gan y Maer.

Gair y Maer yn y llyfr cofnodion.
……

Cof;-0601/20 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Dim materion angen trafodaeth.

…….

Cof; - 0701/20 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.
……..

Cof;- 0801/20 - Adroddiad clerc.

- Mae'r cyfrifiadur newydd yn y Siambr.
- Mae SCRIBE yn cael ei weithredu yn y "cloud" nawr.

Mae banciau yn cysoni. I gadarnhau hyn bydd y clerc yn rhoi dogfen i Gynghorwr arwyddo yn fisol.

Cof;-0901/20 - Gwefru cerbydau.
Mae bwriad gan y Cyngor Sir i roi pwyntiau gwefru cerbydau mewn mannau yng Ngwynedd, gyda Ffordd y Cob wedi ei benodi ym Mhwllheli.
Yn dilyn trafodaeth gyda'r swyddog mae posibilrwydd i fan gwefru cael ei leoli ym Maes parcio Penlan. Gan fod y "grid" ym Mhwllheli yn wan byddan yn asesu os oes digon o bŵer trydan cyn cael rhagor o drafodaeth gyda'r Cyngor Tref.
.....

Cof;-1001/20 - Cynllunio.

Mae angen penderfyniad ar leoliad y Ffynnon dwr i symud ymlaen gyda'r cynllun. Mae'r Cyng. Hefin Underwood am gael trafodaeth gydag un o swyddogion y Bwrdd Dwr.

.....

Cof;-1101/20 - Cefnogi Eisteddfod Genedlaethol.

Penderfynu rhoi £5,000 o arian wrth gefn y Cyngor yn y flwyddyn ariannol yma a pharhau i gefnogi mewn egwyddor. Cyng. Mike Parry a Hefin Underwood yn gwrthwynebu cyfraniad y flwyddyn yma.

.....

Cof;-1201/20 - Comisiynydd Iaith. Ateb ar y bwrdd.

Ymlaen i gyfarfod Chwefror.

.....

Cof; - 1301/20 - Clirio'r Cob gan Glwb Rygbi. Cyng. Hefin Underwood.

Penderfynu cyfrannu £1,000. Hyn y ddibynnol ar safon y gwaith bydd yn cael ei asesu gan y Cyng. Hefin Underwood.

……..

Cof;- 1401/20 - Meysydd Chwarae.

Ymlaen i gyfarfod Chwefror.

…….

Cof;-1501/20 - Y Siambr. Cyng. Mike Parry.

Mae swyddog cadwraeth y Cyngor Sir wedi cytuno dod i ymweld ar Siambr i drafod y gwaith.

Y maer yn diolch i'r Cyng. Mike Parry am ei waith.

.....

Cof;-1601/20 - Gorchudd Glyn y Weddw.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol bu penderfyniad i beidio symud ymlaen gyda'r bwriad i adeiladu gorchudd i'r Tram. Bu angen rhagor o drafodaeth am ei ddyfodol.
.....

Cof;-1701/20 - Adroddiad Cynghorwyr o bwyllgorau/mudiadau allanol.

Bu i'r Dirprwy Faer fynychu cyfarfod y Coleg. Bydd yn rhannu'r cofnodion
Mae gair gan y Maer yn cynnwys adroddiad byr o gyfarfod gyda'r Heddlu ar "Crimewatch" bu iddo ar glerc fynychu.
.....

Cof;-1801/20 - Safle bws ASDA.

Penderfynu derbyn adroddiad arbenigwr Iechyd a diogelwch. Mae'r adroddiad yn barnu bydd perygl i ddefnyddwyr y bysiau os oes symud i'r safle yn unol â phrosiect y Cyngor Sir. Ni fydd y Cyngor Tref yn cyfrannu at y cynlyn.
.....

Cof;-1901/20 - Trwsio palmentydd. Cyng. Elfed Gruffydd.

Ymlaen i gyfarfod Chwefror.

……

Cof;-2001/20 - Meinciau. Cyng. Michael Sol Owen.

Ymlaen y Cyngor Chwefror.

…….

Cof;-2101/20 - Polisi Bioamrywiaeth.

Penderfynu derbyn y Polisi.

……..

Cof;-2201/20 - Eglwys Sant Pedr. Cyng. Dylan Bullard.

Y Cyngor yn datgan diddordeb cyffredinol.

…….

Cof;-2301/20 - Cais am gyfraniad gan Theatr Bara Caws.

Penderfynu cyfrannu £200.

……

Cof;-2401/20 - Goleuadau Nadolig.

Penderfynu cael rhagor o drafodaeth yn Is bwyllgor ariannol.

…….

Cof;-2501/20 - Cais am gyfraniad gan Eisteddfod yr Urdd.

Penderfynu cyfrannu £100

……

Cof;-2601/20 - Gŵyl Fwyd.

Bydd Cyng. Dylan Bullard yn mynd i gyfarfod y Gwŷl Fwyd i ddatgan bod diddordeb cael trafodaeth ar y ffordd ymlaen gan Cyng. Elin Hywel, Ffiona Adams a Mike Parry.

……

Cof;-2701/20 - Derbyniadau.

500	Rhent Adams. X dau.	CR

Cytunwyd.
.....

Cof;-2801/20 –Taliadau.

457.92	Coeden Nadolig.	203102
150	Lwfans Cynghorwr.	203203
46	Lluniaeth i ddiwrnod gwirfoddoli.	203204
184.20	Cardiau Nadolig Print by Magic.	203205
100	Miss S.B. Brazier. Gosod fflagiau Nadolig. (A. Harper)	203206
9180	Goleuadau Nadolig wrth Costa.	203207
870	Atkins. Gosod coeden Nadolig.	203208
468	Dewi Jones. Weindio cloc y dref.	203209
47.84	Tyddyn Sachau. Bylbiau.	203010
1140	Adnewyddu “turnstyle” Ganolfan Hamdden. D.E.Williams.	203211

4225.80	R.J. Electrics. Gosod Goleuadau Nadolig.	203212
565	John Lacey. Cyfrifiadur newydd i`r Siambr.	203213
100	Arian parod.	203214
44.85	Tyddyn Sachau. Bylbiau.	203215
1089.80	Costau gweinyddol y Siambr.	Sieciau.
473.47	HMRC.	203218

Cytunwyd.

Daeth y Cyngor i ben am 8.00 y.h.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 6ed Chwefror 2020.
Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 31 Ionawr 2020.